


Ymchwil Panel Defnyddwyr Ofcom Canfyddiadau'r Ymchwil Feintiol

Ffocws ar Gymru

Mehafin 2006








Amlinelliad o'r adroddiad

- Mae'r adroddiad hwn yn cymharu'r canfyddiadau ar gyfer defnyddwyr preswyl yng Nghymru â'r defnyddwyr preswyl hynny yn y **DU gyfan**
 - dangosir mesurau ar gyfer arolwg 2004 hefyd at ddibenion cymharu
- Mae gwahaniaethau a ddangosir o $\pm 6\%$ (lle seiliwyd hwy ar yr holl ymatebwyr) yn arwyddocaol yn ystadegol
- Lle mae'r canfyddiadau ar gyfer Cymru gryn dipyn yn wahanol i gyfartaledd y DU neu lle mae'r mesurau wedi newid yn sylweddol rhwng 2004 a 2005 dangoswyd hyn drwy ddefnyddio saethau gwyrdd a choch
 - i nodi mesur gryn dipyn yn uwch neu'n is ar gyfer Cymru 
- Mae meintiau sylfaen heb eu pwysoli yn cael eu dangos gydol yr adroddiad i ddangos nifer yr ymatebwyr y cyfwelwyd â hwy



Proffil o grwpiau diamddiffyn yn ôl gwlad

	Lloegr 	Yr Alban 	Cymru 	Gogledd Iwerddon 	CYFANSWM Y DU 
Pobl hŷn (65 oed a throsodd)	16%	16%	18%	14%	16%
Gwledig	13%	16%	22%	35%	12%
Salwch/anabledd cyfyngol tymor hir	14%	18%	29%	15%	15%
Incwm y cartref o dan £11,500	26%	32%	43%	29%	27%
RHANIAD Y GENEDL GYFAN	84%	8%	5%	3%	100%
CYFWELIADAU A GYNHALIWYD	1507	460	366	356	2689

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001-Swyddfa Ystadegau Gwladol ac ar gyfer ardaloedd gwledig 'Dangosydd Trefol' Business Geographic



Gwybodaeth

- Dealltwriaeth is o deledu digidol na'r DU yn gyffredinol, ond cynnydd er 2004 mewn dealltwriaeth o fand eang a 3G
- Ymwybyddiaeth gyffredinol (yn ymwybodol o'r term neu'n ymwybodol o allu'r gwasanaeth) o DAB, 3G a VoIP yn is na chyfartaledd y DU
- Yn llai tebygol na chyfartaledd y DU o gael gwybodaeth am ddatblygiadau yn ymwneud â'r rhyngwrd a theledu digidol
- Ffrindiau a theulu yw'r ffynhonnell cyngor fwyaf poblogaidd, ac yn llai tebygol o gyfeirio at ffynonellau ar-lein ac yn y cyfryngau na chyfartaledd y DU
- Ymwybyddiaeth uwch o'r newid i ddigidol o gymharu â chyfartaledd y DU, a chynnydd sylweddol mewn ymwybyddiaeth er 2004

Perchnogaeth

- Yn llai tebygol na chyfartaledd y DU o gael mynediad i'r rhyngwrd yn gyffredinol a mynediad band eang i'r rhyngwrd yn benodol, ac yn debycach o fod wedi'u heithrio'n wirfoddol ar gyfer y rhyngwrd
- Cynnydd er 2004 mewn perchnogaeth ffonau symudol, teledu digidol a mynediad band eang i'r rhyngwrd, er gwaethaf dim cynnydd mewn mynediad cyffredinol i'r rhyngwrd

Defnydd

- Llai o ddefnydd o ffonau symudol a'r rhyngwrd yn gyffredinol, gyda llai yn defnyddio'r rhyngwrd i wneud trafodion, ar gyfer adloniant, ac i gael gwybodaeth ar gyfer gwaith/ astudiaethau

Agweddau


- Lefelau is yn gyffredinol o bryderon neu ofidiau am wasanaethau ymhlith perchnogion o gymharu â chyfartaledd y DU, a dim newid mewn lefelau gan fwyaf er 2004
- Yn debycach o ddweud bod gwasanaeth teledu yn hanfodol, gyda chynnydd mewn pwysigrwydd ffôn symudol a gwasanaeth teledu er 2004
- Lefelau bodlonrwydd tebyg ar wasanaethau â chyfartaledd y DU, gyda mwy o fodlonrwydd er 2004 yn fwyaf amlwg ar gyfer defnyddwyr teledu digidol a'r rhyngwrd
- Yn debycach na chyfartaledd y DU o fod erioed wedi newid cyflenwyr am eu gwasanaethau ffôn tirwifren a ffôn symudol,

CONSUMER PANEL

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dermau cyfathrebu – cymharu â'r DU

Gwybodaeth

- Ymwybyddiaeth uchel yn gyffredinol ar gyfer band eang a theledu digidol, cymedrol ar gyfer radio digidol DAB, ac isel ar gyfer 3G a VoIP
- Mae ymwybyddiaeth o bob un o'r termau cyfathrebu gryn dipyn yn is ymhlith pobl hŷn (65 oed a throsodd) yng Nghymru a'r rheiny mewn catrefi incwm isel (o dan £11,500 y flwyddyn)
- Dealltwriaeth is o deledu digidol o gymharu â chyfartaledd y DU – oherwydd cynnydd mewn dealltwriaeth ar lefel y DU sy'n cael ei yrru gan ddefnyddwyr yn Lloegr, ac i raddau llai y rheiny yng Ngogledd Iwerddon



↓ ↑ yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd y DU 2005**

Sylfaen : Holl ymatebwyr Cymru (366) a'r DU yn gyffredinol (2,689)

CONSUMER PANEL

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o dermau cyfathrebu – newid er 2004




Gwybodaeth


- Cynnydd sylweddol ymhlith defnyddwyr yng Nghymru mewn ymwybyddiaeth o'r termau cyfathrebu band eang a 3G
- Mae'r cynnydd mwyaf er 2004 ymhlith y defnyddwyr hynny mewn cartrefi incwm isel

Heb wybod Camhysbysu Methu disgrifio Yn deall

Band eang




Teledu digidol




Radio digidol DAB

*Sylwer: Radio Digidol oedd y term yn 2004



3G



VoIP (Protocol Llais dros y Rhyngrwyd)

*ON Cyflwynwyd i'r arolwg yn 2005




Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na 2004 yng Nghymru

Sylfaen : Holl ymatebwyr Cymru yn 2005 (366) a 2004 (352)



- Mae cyfran sylweddol o ddefnyddwyr yng Nghymru yn ymwybodol o allu 3G a VoIP pan ddarlennir disgrifiad iddynt o'r hyn mae'r gwasanaethau hyn yn ei ddarparu, ond mae hyn yn llai amlwg ar gyfer radio digidol DAB
- Mae'r lefelau ymwybyddiaeth gyffredinol ar gyfer radio digidol DAB, 3G a VoIP yn is nag ar gyfer y DU gyfan



↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd y DU 2005**


CONSUMER PANEL

Cael gwybodaeth am ddatblygiadau newydd – cymharu â'r DU a'r newid er 2004

Gwybodaeth

- Mae defnyddwyr yng Nghymru gryn dipyn yn llai tebygol o gael gwybodaeth eu hunain am ddatblygiadau ar gyfer y rhyngwrwd a theledu digidol o gymharu â'r DU gyfan
- O gymharu â 2004, mae llai o ddefnyddwyr yng Nghymru yn cael gwybodaeth eu hunain am y rhyngwrwd

Newid mewn % ar gyfer Cymru a'r DU er 2004




Sylfaen : Holl ymatebwyr yng Nghymru (366) a'r DU gyfan (2,689)

CONSUMER PANEL

Cael gwybodaeth am ddatblygiadau newydd – cymharu yn ôl oedran

Gwybodaeth

- Mae defnyddwyr hŷn (65 oed a throsodd) yng Nghymru gryn dipyn yn debycach o gael gwybodaeth eu hunain am ffyrdd o dderbyn sianelau teledu o gymharu â defnyddwyr iau (o dan 65 oed) a Chymru gyfan
- Er 2004, mae defnyddwyr hŷn wedi dangos gwelliant sylweddol o ran cael gwybodaeth eu hunain am ddatblygiadau newydd am wasanaethau cyfathrebu, a theledu digidol yn benodol eto



*ON Maint sylfaen isel – triniwch fel dangosol yn unig

Sylfaen : Holl ymatebwyr yng Nghymru (366), O dan 65 oed (299) a 65+ (*67)

Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd DU 2005**

CONSUMER PANEL

Ffynonellau cyngor a gwybodaeth – cymharu â'r DU a'r newid er 2004

Gwybodaeth

- Ffrindiau a theulu yw'r ffynhonnell cyngor a gwybodaeth fwyaf poblogaidd am ffynonellau cyfathrebiadau i ddefnyddwyr yng Nghymru (er gwaethaf gostyngiad mewn enwebiadau o gymharu â 2004), ac yna cyflenwyr/ siopau sy'n gwerthu'r gwasanaethau
- Mae defnyddwyr yng Nghymru gryn dipyn yn llai tebygol o enwebu ffynonellau gwybodaeth ar-lein neu yn y cyfryngau na defnyddwyr ar draws y DU gyfan

Newid mewn % er 2004 Cymru

-8

-1

+1

-5

+3

Newid mewn % er 2004 DU


+10

-2

+9

-1

-1



Sylfaen : Holl ymatebwyr yng Nghymru (366) a'r DU gyfan (2,689)


CONSUMER PANEL

Ffynonellau cyngor a gwybodaeth – cymharu yn ôl oed

Gwybodaeth

- Mae defnyddwyr hŷn (65 oed a throsodd) yng Nghymru gryn dipyn yn debycach o enwebu ffrindiau/ teulu a chyflenwyr/ siopau na defnyddwyr iau (o dan 65 oed) a defnyddwyr ar draws Cymru gyfan
- O gymharu â 2004, mae defnyddwyr hŷn llawn mor debygol nawr o enwebu unrhyw ffynonellau cyngor neu wybodaeth â defnyddwyr iau yng Nghymru

Newid mewn % er 2004 Cymrus	-8	-1	+1	-5	+3
Newid mewn % er 2004 O dan 65	-16	-9	+3	-6	+3
Newid mewn % er 2004 65 a throsodd	+24	+16	+3	+1	-11



Sylfaen : Holl ymatebwyr yng Nghymru (366), O dan 65 oed (299) a 65+ (*67) *ON Maint sylfaen isel – triniwch fel dangosol yn unig


CONSUMER PANEL

Perchnogaeth llwyfannau gwahanol – cymharu â'r DU a'r newid er 2004

Perchnogaeth

- Mae defnyddwyr Cymru gryn dipyn yn llai tebygol o gael mynediad i'r rhyngwrwd gartref, a mynediad band eang i'r rhyngwrwd gartref na chyfartaledd y DU
- Mae perchnogaeth ffonau symudol, teledu digidol a mynediad band eang i'r rhyngwrwd wedi cynyddu'n sylweddol er 2004 ymhlith defnyddwyr Cymru, gyda gostyngiad mewn perchnogaeth tirwifrau. Mae'r newidiadau hyn yn weddol debyg i fesurau'r DU, ac eithrio perchnogaeth ffonau symudol.

Newid mewn % ar gyfer Cymru a'r DU er 2004



Sylfaen : Holl ymatebwyr yng Nghymru (366) a'r DU gyfan (2,689)


↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd DU**

CONSUMER PANEL

Perchnogaeth aml-lwyfannau – cymharu â'r DU

- Mae un o bob deg defnyddiwr yng Nghymru yn berchen ar un yn unig o'r pedair technoleg gyfathrebu (tirwifren, ffôn symudol, teledu digidol neu'r rhyngwyd)
- Mae perchnogaeth o bob un o'r pedwar math hwn o dechnoleg gyfathrebu gryn dipyn yn llai cyffredin ymhlith defnyddwyr yng Nghymru o gymharu â'r DU gyfan, oherwydd lefelau perchnogaeth isel ar gyfer y rhyngwyd

Ag un yn unig o blith tirwifren, ffôn symudol, teledu digidol neu'r rhyngwyd gartref



Â phob un o'r pedwar, sef tirwifren, ffôn symudol, teledu digidol a'r rhyngwyd gartref


CONSUMER PANEL

Eithrio gwirfoddol ac anwirfoddol – cymharu â'r DU

Perchnogaeth

- Ar gyfer pob un o'r bedair technoleg gyfathrebu, mae eithrio anwirfoddol yn ganlyniad fforddiadwyedd yn bennaf (h.y. taliadau misol, taliadau defnyddio, cost cyfarpar)
- Nid yw defnyddwyr yng Nghymru yn wahanol i'r DU gyfan o ran eithrio anwirfoddol, ond maent gryn dipyn yn debycach o fod wedi'u heithrio'n wirfoddol o gael y rhyngrwyd gartref

(h.y. Dim angen/ ddim eisiau) (h.y. Rhesymau ac eithrio dewis)




↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd DU**

Sylfaen : Holl ymatebwyr yng Nghymru (366) a'r DU gyfan (2,689)



- O gymharu â 2004 mae perchnogaeth gynyddol o ffonau symudol a theledu digidol yn gweld gostyngiad sylweddol yn lefelau eithrio gwirfoddol ymhlith cwsmeriaid yng Nghymru oherwydd perchnogaeth gynyddol

(h.y. Dim angen/ ddim eisiau) (h.y. Rhesymau ac eithrio dewis)




CONSUMER PANEL


Defnyddiau ffonau symudol – cymharu â'r DU

Defnydd

- Ymhlith defnyddwyr Cymru mae lleiafrif perchnogion ffonau symudol yn defnyddio'u ffon yn wythnosol ar gyfer unrhyw un o'r defnyddiau a ddangosir y tu hwnt i anfon a derbyn negeseuon testun, gydag ymron i un o bob tri ddim yn gwneud yr un o'r rhain yn wythnosol
- O gymharu â chyfartaledd y DU, mae perchnogion ffonau symudol yng Nghymru gryn dipyn yn llai tebygol o wneud pob un o'r defnyddiau o'r ffôn ac eithrio anfon lluniau ac anfon negeseuon testun



- Ymhlith defnyddwyr yng Nghymru, mae'r rheiny â mynediad i'r rhyngwyd gartref yn gwneud defnydd mwy cul o'r rhyngwyd o gymharu â chyfartaledd y DU, gyda defnydd is o'r rhyngwyd ar gyfer trafodion (e.e. bancio, siopa ar-lein), adloniant (e.e. lawrlwytho, gemau, radio) a chanfod/ lawrlwytho gwybodaeth ar gyfer gwaith/ astudiaethau
- Mae canfyddiadau ar gyfer y DU yn dangos bod y rheiny â mynediad band eang yn gwneud mwy o ddefnyddiau o'r rhyngwyd o gymharu â'r rheiny â mynediad deialu. Nid oes digon o gyfweiliadau â defnyddwyr deialu yng Nghymru i wneud y gymhariaeth hon



Sylfaen : Pawb â mynediad i'r rhyngwyd gartref

Defnydd


- Ymhlith defnyddwyr yng Nghymru, mae'r gwariant misol cyfartalog a hunan-adroddir yn debyg i gyfartaledd y DU, er yr ymddengys yn is ar gyfer ffonau symudol
- Mae'r newid yn y gwariant o gymharu â 2004 yn debyg hefyd i gyfartaledd y DU, eto ac eithrio ffonau symudol. Mae'r cynnydd yn y defnydd o fand eang yng Nghymru yn debygol o fod wedi effeithio ar y cynnydd mewn gwariant rhyngrwyd; gyda defnyddwyr band eang yn gwario mwy yn gyffredinol na defnyddwyr deialu.

Newid mewn £ cyfartalog er 2004



Tirwifren



Ffôn symudol



Rhyngrwyd



Teledu aml-sianel





Tirwifren (297)

Mae gan 29% unrhyw bryderon neu ofidiau (30% ar gyfer y DU)
- 16% costau
- 11% preifatrwydd (galwadau digymell)

Mae lefel uwch o bryderon yn cael eu hadrodd ymhlith bobl hŷn 65+ oed

Wedi cynyddu o 17% gydag unrhyw bryderon neu ofidiau yn 2004

Ffôn symudol (302)

Mae gan 25% unrhyw bryderon neu ofidiau (31% ar gyfer y DU)
- 22% costau
- 5% dewis/ mynediad/ cwmpas

Mae lefel uwch o bryderon yn cael ei hadrodd ymhlith perchnogion iau a'r rheiny nad ydynt yn gweithio

Dim newid gwirioneddol o 23% gydag unrhyw bryderon neu ofidiau yn 2004

Y Rhyngrwyd (152)

Mae gan 32% unrhyw bryderon neu ofidiau (41% ar gyfer y DU)
- 22% spam/ naid-luniau/ firsau/ rheolaeth
- 14% diogelwch

Sylfaen yn rhy isel i adrodd ar wahaniaethau

Wedi gostwng o 43% gydag unrhyw bryderon neu ofidiau yn 2004


Teledu digidol (247)

Mae gan 15% unrhyw bryderon neu ofidiau (24% ar gyfer y DU)
- 9% costau
- 5% dewis/ mynediad
- 4% gwasanaeth cwsmeriaid

Fawr o amrywio yn lefel y pryderon yn cael eu hadrodd

Dim newid gwirioneddol o 12% gydag unrhyw bryderon neu ofidiau yn 2004

- Ymhlith perchnogion bob math o ddyfais/ gwasanaeth yng Nghymru, tirwifrau a ffonau symudol sydd debycaf o gael eu hystyried yn hanfodol, gyda lleiafrif o berchnogion y rhynggrwyd yn dweud bod y gwasanaeth hwn yn hanfodol
- O gymharu â defnyddwyr ar draws y DU, mae'r rheiny yng Nghymru yn debycach o ystyried bod eu gwasanaeth teledu yn hanfodol, ac yn llai tebygol o ystyried bod eu gwasanaeth rhynggrwyd yn hanfodol



↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd DU**
2005


CONSUMER PANEL

Pwysigrwydd dyfeisiau/ gwasanaethau dan berchnogaeth – newid er 2004

Agweddau

- O gymharu â 2004, mae perchnogion yng Nghymru yn llai tebygol o ystyried bod eu gwasanaeth tirwifren a'u gwasanaeth rhyngrwyd yn hanfodol, ac yn debycach o ystyried bod eu ffôn symudol a'u gwasanaeth teledu yn hanfodol.
- Ar draws y DU bu cynnydd hefyd mewn dweud bod ffonau symudol yn hanfodol, a gostyngiad mewn dweud bod ffonau tirwifren yn hanfodol, ac adlewyrchir hyn yng Nghymru. Nid yw'r DU gyfan yn gweld unrhyw newid ym mhwsigrwydd y rhyngrwyd a gwasanaethau teledu, ac felly mae Cymru'n wahanol ar gyfer y gwasanaethau hyn.

■ 1 - Dim angen amdano ■ 2 ■ 3 ■ 4 ■ 5 - Mae'n hanfodol



↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na 2004 yng Nghymru

CONSUMER PANEL

Agweddau tuag at werth o wasanaethau – cymharu â'r DU a'r newid er 2004


Agweddau

- Y gwasanaeth ffonau symudol sydd debycaf o gael ei nodi fel gwasanaeth sy'n rhoi gwerth da gan berchnogion pob math o ddyfais/gwasanaeth yng Nghymru, a chan fwy o berchnogion na chyfartaledd y DU, yn arbennig y rheiny sy'n defnyddio Talu wrth fynd ymlaen ar gyfer eu ffôn. Mae'r rhyngwyd a theledu digidol yn debycach o gael eu nodi hefyd fel rhai sy'n rhoi gwerth da yng Nghymru, a gwelir cynnydd sylweddol er 2004, ond mae'r gwasanaeth ffôn tirwifren yn cael gradd is am werth da o gymharu â chyfartaledd y DU

% y defnyddwyr sy'n nodi pob un fel 'gwerth da'

Newid mewn % er 2004 ar gyfer Cymru

■ Cymru ■ Cyfartaledd y DU



*ON Maint sylfaen isel – triniwch fel dangosol yn unigP
Sylfaen :Perchnogion pob math o ddyfais/ gwasanaeth


↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd DU**
2005 21

CONSUMER PANEL

Bodlonrwydd ar wasanaethau a chyflenwyr cyfathrebiadau – cymharu â'r DU

Agweddau

- Mae tri chwarter neu fwy o berchnogion pob math o wasanaeth/ dyfais yng Nghymru yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir, a nifer cymharol fach sy'n anffodlon
- Ychydig o agweddau sy'n gweld bodlonrwydd uwch ymhlith defnyddwyr yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU, ac mae cyfran debyg yn anffodlon o gwbl
- Mae bodlonrwydd isaf ynghylch 'Eich cyflenwr yn gofalu eich bod ar eu borgen orau i chi', yn yr un modd â'r DU gyfan



↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na chyfartaledd DU

CONSUMER PANEL


Bodlonrwydd ar wasanaethau a chyflenwyr cyfathrebiadau – newid er 2004

Agweddau

- Ymhlith defnyddwyr yng Nghymru, mae gwasanaethau'n gweld cynnydd mewn bodlonrwydd am 'Deall biliau' ac eithrio ffônau tirwifren, gyda'r rhyngwryd a gwasanaethau teledu digidol yn gweld cynnydd mewn bodlonrwydd am bob agwedd a gwmpesir. Mae gwasanaethau ffôn tirwifren, fodd bynnag, yn weld cynnydd cyffredinol mewn unrhyw anfadlonrwydd.
- Er bod '...gofalu eich bod ar eu bargaen orau i chi' yn parhau fel yr agwedd sy'n cael ei graddio isaf, mae bodlonrwydd wedi gwella am deledu a gwasanaethau rhyngwryd

■ Bodlon
■ Anfodlon

Deall biliau




Cyflenwr yn gofalu eich bod ar y fargen orau

Gwasanaeth cyffredinol

UNRHYW ANFODLONRWYDD


↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na 2004 yng

- Defnyddwyr yng Nghymru sydd debycaf o fod erioed wedi newid cyflenwyr am eu gwasanaeth ffôn symudol a ffôn tirwifren, yn yr un modd â'r DU gyfan, ac mae'r nifer sydd wedi newid y cwmni a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau telefoni hyn erioed wedi codi er 2004
- Mae profiad o newid cyflenwr gwasanaeth tirwifren yn uwch yng Nghymru, a newid cyflenwr gwasanaeth rhyngwrwyd yn is o gymharu â'r DU gyfan.





- Mae traean o holl ddefnyddwyr Cymru sydd â ffôn symudol fyth yn gwirio a ydynt ar y tariff neu'r fargen orau, sy'n is na'r DU gyfan
- Mae'r rheiny â chontract ar gyfer eu ffôn symudol gryn dipyn yn debycach o wirio fyth o gymharu â defnyddwyr Talu wrth fynd ymlaen



*ON Maint sylfaen isel – triniwch fel dangosol yn unig


Sylfaen: Pawb sy'n defnyddio ffôn symudol

↓ ↑ Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd DU**

CONSUMER PANEL

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid i Ddigidol – cymharu â'r DU

- Mae hanner yr holl ddefnyddwyr yng Nghymru wedi clywed y term newid i ddigidol, ac yn gallu disgrifio'r hyn y mae'r term yn cyfeirio ato ('Deall'), ac mae'r mesur hwn yn uwch na chyfartaledd y DU
- Yng Nghymru, yn wahanol i'r DU gyfan, mae cyfran debyg o'r rheiny gyda theledu digidol, a hebdo yn ymwybodol o'r newid i ddigidol



Yn dangos gryn dipyn yn is neu'n uwch na **chyfartaledd DU**

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid i Ddigidol – newid er 2004

CONSUMER PANEL

WALES



Newid i ddigidol

- Mae dealltwriaeth o'r term newid i ddigidol wedi cynyddu'n sylweddol ymhlith defnyddwyr yng Nghymru o gymharu â 2004; yn codi 36% i gyfrif am 52% o'r holl ddefnyddwyr yng Nghymru
- Mae dealltwriaeth yn is ymhlith defnyddwyr yng Nghymru mewn cartrefi incwm isel

Ymwybodol

Heb wybod


Methu disgrifio

Deall

2005

Cyfartaledd Cymru 2005

(366)



2004

Cyfartaledd Cymru 2004

(352)

